



Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

Addysg WISERD: Newid tirlun ymchwil addysgol yng Nghymru

Sally Power a Chris Taylor

Mawrth 2018



Cydnabyddiaeth

Ni fydden ni wedi llwyddo i gyflawni'r fath gynnydd heb gymorth amrywiaeth eang o sefydliadau ac unigolion.

Yn bennaf oll, mawr yw ein diolch i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac i Cliona O'Neill yn arbennig, am eu hymrwymiad i gryfhau sylfeini ymchwil addysgol yng Nghymru. Ni fyddai'r gweithgareddau a drafodir yn yr adroddiad hwn wedi digwydd heb eu cyllid a'u cefnogaeth.

Yn ail, mae'n rhaid i ni ddiolch i'r miloedd a gymerodd ran yn Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD (WMCS). Mae hyn yn cynnwys staff allweddol o fewn yr ysgolion, llywodraethwyr yr ysgolion ac yn olaf – y bobl ifanc eu hunain.

Yn drydydd, hoffwn ddiolch i'n cydweithwyr sy'n gweithio mewn adrannau addysg prifysgolion eraill yng Nghymru. Pleser o'r mwyaf oedd cael gweithio gyda nhw.

Yn bedwerydd, rydym ni wedi dibynnu'n llwyr ar ymrwymiad ac arbenigedd ein tîm ymchwil Addysg WISERD, ac mae llawer ohonynt wedi mynd ymlaen i ennill swyddi academiaidd yng Nghymru. Yn nhrefn yr wyddor, aiff ein diolch i:

- Rhian Barrance

Constantino Dumangane Jr.

Dan Evans

Kim Horton
- Sioned Pearce

Mirain Rhys

Kathryn Sharp

Kevin Smith

Yn olaf, mae staff gweinyddol Canolfan WISERD wedi bod yn gyson broffesiynol a chefnogol. Hoffwn ddiolch yn arbennig i Liza Donaldson, Chris Phillips, Cadan ap Tomos, Alex Williams, Jill Wilmott-Doran a Tina Woods. Mae'r cymorth technegol a rheoli data a ddarparwyd gan Sam Jones a Katie Dickson wedi bod yn rhagorol.

Manylion Cyswllt

- Sally Power

powers3@cf.ac.uk | 029 2087 4738
- Chris Taylor

taylorcm@cf.ac.uk | 029 2087 6938

Cynnwys

Cyflwyniad	01
Cynhyrchu data o ansawdd am brofiadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc	02
Ennill cyllid am waith ymchwil cynaliadwy o ansawdd	05
Cyhoeddiadau o ansawdd yn cael sylw eang	06
Cyrhaeddiad rhyngwladol Addysg WISERD	08
Cyfrannu i'r ddadl	09
Darparu tystiolaeth ar gyfer polisi addysg	10
Gweithio gydag ysgolion ac ymarferwyr	11
Adeiladu'r sylfeini ar gyfer dyfodol ymchwil addysgol yng Nghymru	12
Cefnogi ysgrifennu academiaidd	14
Bodloni ein hamcanion	16
Atodiad 1: Grantiau Ymchwil	18
Atodiad 2: Cyhoeddiadau	20
Atodiad 3: Datganiad gwariant terfynol	23

Cyflwyniad


Lansiwyd Addysg WISERD yn 2012 er mwyn newid tirlun ymchwil addysgol yng Nghymru. Prif nodau'r Rhaglen oedd:

- gwella'r capasiti i gynnal ymchwil addysgol o ansawdd o fewn y sector addysg uwch yng Nghymru;
- ymgymryd â gweithgareddau ymchwil sydd â'r nod o wella ansawdd dysgu a safonau addysgu ac addysg athrawon yng Nghymru;
- ymgymryd â gweithgareddau trosiadol i ehangu llythrennedd ymchwil y rheiny sy'n addysgu athrawon, ymarferwyr, llunwyr polisiâu a rhanddeiliaid eraill;
- rhoi seilwaith ar waith a fydd yn sicrhau y gellir cynnal y capasiti a'r gweithgarwch hwn yn y tymor hir, gan arwain at gydnabyddiaeth gynyddol o ymchwil addysg o safon yng Nghymru mewn ymarferion asesu ymchwil ar draws y DU yn y dyfodol.

Cafodd y Rhaglen ei harwain gan yr athro Sally Power a'r Athro Chris Taylor, Cyd-Gyfarwyddwyr Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD), sydd wedi'i leoli ym Mhrifysgol Caerdydd.

Yn yr adroddiad hwn, rydym ni'n amlinellu'r cynnydd rydym ni wedi'i wneud o ran bodloni'r amcanion hyn. Mae pob adran yn trafod un o amryw ddimensiynau gweithgareddau Addysg WISERD, gan gynnwys uchafbwyntiau a digwyddiadau allweddol. Mae crynodeb o sut rydym ni wedi bodloni pob un o ddangosyddion perfformiad Addysg WISERD wedi'i ddarparu yn yr adran derfynol.

Credwn fod Addysg WISERD wedi gosod y sylfeini ar gyfer adeiladu cymuned ymchwil gryf a chynaliadwy yng Nghymru – sylfeini yr ydym ni'n gobeithio parhau i gryfhau yn y blynyddoedd i ddod.



Cynhyrchu data o ansawdd am brofiadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc

Un o brif nodau Addysg WISERD oedd darparu adnodd data o ansawdd ar gyfer ymchwil addysg yng Nghymru. Casglu data yw un o elfennau mwyaf costus cynnal gwaith ymchwil, felly drwy ddarparu adnoddau data, roedden ni’n gallu hwyluso prosiectau ymchwil lle’r oedd y gost o gasglu data yn cael ei thalu’n ganolog – yn hytrach na’i gwasgaru ar draws ymchwilwyr, llawer ohonynt a chanddynt brofiad cyfyng ym maes ymchwil a/neu dim llawer o amser i ymgymryd ag ef. I’r perwyl hwn, fe sefydlon ni Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD (WMCS).

Adnodd Data WMCS
Mae’r cyrchoedd casglu data blynyddol wedi profi i fod yn un o elfennau mwyaf llwyddiannus rhaglen Addysg WISERD. Mae’r cynllun sampl ar gyfer WMCS yn seiliedig ar ffurf o samplu wedi’i glystyru. Roedd hyn yn cynnwys nodi sampl dethol o 29 o ysgolion (13 o ysgolion uwchradd ac 16 o ysgolion cynradd) ledled Cymru wedi’i ddylunio i gynnwys cymunedau amrywiol (dan anfantais/breintiedig, gwledig/trefol, Cymraeg a Saesneg eu hiaith). Am bum mlynedd yn olynol, rydym ni wedi dilyn cynnydd sawl carfan o blant a phobl ifanc wrth iddynt ddatblygu drwy’r system addysg (Tabl 1).

Tabl 1: Cyrchoedd WMCS

	Carfan A	Carfan B	Carfan C	Carfan D	Carfan E	Cyfanswm
Cyrch 1 (2013)		Blwyddyn 6 (n=341)	Blwyddyn 8 (n=410)	Blwyddyn 10 (n=428)		1179
Cyrch 2 (2014)	Blwyddyn 2 (n=430)	Blwyddyn 7 (n=351)	Blwyddyn 9 (n=380)	Blwyddyn 11 (n=324)		1485
Cyrch 3 (2015)	Blwyddyn 3 (n=350)	Blwyddyn 8 (n=327)	Blwyddyn 10 (n=343)	Blwyddyn 12 (n=156)		1176
Cyrch 4 (2016)	Blwyddyn 4 (n=397)	Blwyddyn 9 (n=324)	Blwyddyn 11 (n=296)	Blwyddyn 13 (n=99)		1116
Cyrch 5 (2017)		Blwyddyn 10 (n=336)	Blwyddyn 12 (n=177)	Gadawyr (n=22)	Blwyddyn 7 (n=596)	1131

Wrth i garfanau adael addysg orfodol, rydym ni wedi sefydlu carfan Blwyddyn 7 newydd (Carfan E). Yn 2013-14, fe wnaethom ni hefyd gynnal arolygon o rieni aelodau’r carfanau. Cynhyrchodd hyn bron i 250 o ymatebion.

Yn ogystal â chyfweliadau â phenaethiaid a llywodraethwyr yr ysgolion WMCS yn 2014 a 2017, rydym ni hefyd wedi cynnal dau arolwg athrawon.

Hygyrchedd data ac archifo

Rydym ni'n falch bod y Gwerthusiad Allanol a gyflawnwyd gan Brifysgol Rhydychen wedi canfod bod ymchwilwyr ledled Cymru yn ymwybodol yn gyffredinol eu bod yn gallu defnyddio'r adnoddau hyn. Yn ogystal â'r gweithdai a'r ymweliadau lu rydym ni wedi'u cynnal i hyrwyddo defnydd o'r data, rydym ni wedi sicrhau bod yr holl arolygon ar gael ar Borth Data WISERD:

dataportal1-wiserd.cf.ac.uk

Hefyd, mae gennym ni gronfa o gwestiynau y mae modd chwilio drwyddi.


Mae'r data hyn ar gael i bob ymchwiliwr academiaidd. Mae mynediad ar gael o Ganolfan WISERD yng Nghaerdydd. Mae mesurau wedi'u cymryd i sicrhau bod data yn cael eu cadw'n ddiogel a'u defnyddio'n briodol.

Esiamplau o ganfyddiadau o'r WMCS

Mae'r WMCS wedi arwain at lwyth o ddata ar ystod eang o safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc. Mae'r esiamplau canlynol yn rhoi cipolwg ar y canfyddiadau amryfal.

Addysgu preifat yng Nghymru

Ceir pryderon am faint mae tiwtora preifat yn cynyddu anghydraddoldebau addysgiadol, ond hyd yn hyn mae'r rhan fwyaf o'r data yn perthyn i Loegr. Roedd gennym ddiddordeb mewn darganfod os yw tiwtora preifat yr un mor gyffredin yng Nghymru. Mae data o'r WMCS yn dangos bod na lawer yn llai o diwtora preifat yng Nghymru, gydag ond 14% o'n pobl ifanc yn dweud eu bod wedi derbyn unrhyw diwtora – i'w gymharu â 22% yn Lloegr a 4% yn Llundain. Mewn ffyrdd eraill, fel mae'r siart isod yn dangos, mae proffil y pynciau a ddarperir tiwtora preifat ynddynt yn ddigon tebyg.





Education Workforce Council
Tel: 029 2046 0099 | Email: information@ewc.wales | Twitter: @ewc_cga | LinkedIn

ABOUT ▾ REGISTRATION ▾ FITNESS TO PRACTISE ▾ INDUCTION ▾ PROFESSIONAL DEVELOPMENT ▾ RESEARCH AND STATISTICS ▾ ITE ACCREDITATION ▾

What is the EWC and what do we do?
Council meetings
Council members
Corporate documents
Education Wales
Staff room ▾
Sôn
Sôn Archive
Professionally Speaking
Features

Sally Power: Private tutoring in Wales: how widespread is it?



Although private tutoring was by no means unheard of in the UK in the past, it has traditionally been seen as a peripheral activity – something indulged in by a handful of worried parents. The widespread and systematic use of private tutoring has more commonly been associated with 'high pressure' systems such as Japan and Korea. More recently, though, there has been growing recognition that private tutoring in the UK is more than just a peripheral activity. Research by the Sutton Trust (2015) found extensive use of private tutoring – particularly in some parts of the country. The 'London factor' is particularly striking, with those living in London twice as likely to receive tuition – 44% compared with 22% outside London. Here in WISERDEducation we were interested to see whether there were similar levels of private tuition in Wales and, if so, where?

Y cwricwlwm ac asesu yng Nghymru

Mae'r WMCS hefyd yn gosod goleuni ar beth mae pobl ifanc yn meddwl o'r cwricwlwm – yn nhermau'r cynnwys a thegwch y cyfundrefnau asesu.

Dr Rhian Barrance, Education, Education, GCSE, WISERD Education Project, Young People

WISERD GCSE Series – Part 3: Is tiering fair for all students?



Education GCSE Young People

Having previously looked at the different types of GCSE courses and how they are assessed, in the third and final blog of this series, Dr Rhian Barrance outlines recent research on tiering and considers how fair it is for different groups of students.

Tiering has been used for GCSEs since they were introduced in 1986. Currently, for most subjects tiered at GCSE, there are two tiers of exam paper – the higher tier, which provides students with access to A*-D/E grades, and the foundation tier, which is designed to be less challenging than the higher paper but only allows students to achieve grades in the ranges of C-G.

The introduction of tiering raised issues of fairness from the start. There were concerns about the comparability of overlapping grades on examination papers (eg, does a C grade on a foundation paper really equate to a C grade on higher tier?) and the possibility that students taking foundation papers could be disadvantaged in cases where they could potentially attain a grade higher than a C.



©University of the Fraser Valley via Flickr (CC BY 3.0)

Dr Kevin Smith, Education, WISERD Education Project

Curriculum, Culture and Citizenship in Wales



Jill Wilmott-Doran
22 January 2014


Citizenship Education Critical literacy Critical pedagogy Education Literacy Numeracy Policy Welsh Government

by Dr Kevin Smith.

Recently, the Welsh government has committed to raising standards of literacy and numeracy amongst pupils in schools across Wales by developing the *National Literacy and Numeracy Framework (LNF)*. The LNF was developed with the intention of enabling pupils to "develop excellent literacy and numeracy skills during their time in school." Literacy and numeracy are essential skills in today's world, but there is another type of literacy that, in my opinion, is equally important. Citizenship Education (CE) was introduced into the UK in the early 1990s. Through a number of themes and key concepts, CE is an attempt to help pupils develop political literacy – meaning that they are able to recognize, comprehend and act on the characteristics of citizenship in their communities, the nation and even on a global scale. Since the 1990s, CE has existed as a cross-curricular theme that was typically addressed in history, geography and sociology classes. In 2002, Citizenship Education was made statutory in England. However, in Wales, it still doesn't exist as a stand-alone, statutory subject. Currently, CE is delivered as a cross-curricular theme through statutory elements such as Personal and Social Education (PSE), Education for Sustainable Development and Global Citizenship (ESDGC) and the Welsh Baccalaureate.

Gwerthoedd pobl ifanc

Mae hefyd gennym ni lwyth o ddata ar rhai o'r materion sy'n bwysig i bobl ifanc. O ddiddordeb yw'r ymatebion i'r cwestiwn 'Pe byddai rhywun yn rhoi £1 miliwn i ti heddiw, beth byddet ti'n gwneud â hi?'. Mae plant a phobl ifanc Cymru llawer yn fwy allgarol nag y rhagdybiwyd.



WISERD ADDYSG


Ebost: wisereducation@cardiff.ac.uk @WISERDEducation

Ennill cyllid am waith ymchwil cynaliadwy o ansawdd

Mae Addysg WISERD wedi llwyddo i ennill cyllid ar gyfer amrywiaeth o brosiectau ymchwil addysgol, llawer ohonynt ar y cyd â chydweithwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt. Yn y pum mlynedd diwethaf, rydym ni wedi cyflwyno tendrau ar gyfer 59 o brosiectau, gyda chyfradd llwyddo uchel (61%). Mae staff Addysg WISERD wedi cyfrannu at greu incwm ymchwil ychwanegol o ychydig dros £4 miliwn. Mae manylion y prosiectau a ddyfarnwyd ar gael yn Atodiad 1.

Fel mae'r siart isod yn ei ddangos, rydym ni wedi llwyddo i ddenu grantiau ymchwil gan amrywiaeth eang o gyllidwyr.

Rydym ni'n falch iawn fod y rhan fwyaf o'r arian wedi dod o ddyfarniadau cynghorau ymchwil mawreddog lle mae cystadlu brwd amdanynt.



Prifysgol	£274,076
Trydydd sector	£111,824
Llywodraeth	£1,326,512
Cyngor Ymchwil	£1,690,774
Rhyngwladol	£603,000

Mae'r prif brosiectau yn cynnwys:

Dyfarniadau cyngor cyllido

- ESRC 'Pobl Ifanc a Refferendwm yr UE: Brexit Flwyddyn yn Ddiweddarach'
- ESRC 'Cymryd rhan yn yr Arolwg Byd Plant Rhyngwladol' (o fewn rhaglen Cymdeithas Sifil WISERD/ESRC)

Dyfarniadau rhyngwladol

- Rhwydwaith o Arbenigwyr ar Agweddau Cymdeithasol ar Addysg a Hyfforddiant (NESET)
- Lleoliad ar gyfer ymchwil cymharol yn yr École Normale Supérieure

Dyfarniadau Llywodraeth Cymru

- Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen
- Dyfodol Llwyddiannus i Bawb

Dyfarniadau'r trydydd sector

- Ymddiriedolaeth Sutton: 'Olrhain cynnydd Deiliaid Lleuedd a Gynorthwyr ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach'
- Cymdeithas Anrhydeddus y Cymmrodorion: 'Argyfwng Addysg Gymraeg? Adolygiad o'r dystiolaeth gyfredol'

Dyfarniadau Prifysgol Caerdydd

- Casglu data ar gyfer Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD (WMCS) (ar gyfer y chweched a'r seithfed cyrchoedd)
- Prynu bandiau llewys (wristbands) Empatica E4 a ffonau clyfar Android fel cenhedlaeth nesaf o offer ymchwil addysgol



Cyhoeddiadau o ansawdd yn cael sylw eang

Mae Addysg WISERD yn cyhoeddi ei ganfyddiadau mewn amrywiaeth eang o fformatau, gan gynnwys cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid, llyfrau, penodau llyfr, adroddiadau ymchwil a blogiau. Rydym ni wedi cyhoeddi dros 80 o allbynnau o'n gwaith ymchwil dros y pum mlynedd diwethaf, a gellir priodoli dros 40 ohonynt i'r arian hwn.

Mae potensial WMCS i gynhyrchu allbynnau ymchwil o ansawdd yn amlwg yn nifer y cyhoeddiadau sy'n seiliedig ar y data hyn. Yn ogystal, mae aelodau'r Tîm Prosiect wedi cyhoeddi allbynnau ar amrywiaeth eang o faterion yn ymwneud ag addysg o ganlyniad i lwyddiant yn creu incwm ymchwil pellach, a fydd hefyd yn helpu i adeiladu proffil ymchwil addysg Cymru, nid yn y DU yn unig ond yn rhyngwladol.

Un enghraifft o gyhoeddiadau proffil uchel WISERD yw ein papur 'Sleepless in School?' a oedd yn archwilio dimensiynau a goblygiadau cymdeithasol arferion amser gwely a deffro pobl ifanc. **Mae'r papur hwn yn y 5% uchaf o'r holl allbynnau ymchwil a sgoriwyd gan Altmetric** – sy'n olrhain lefel a ffynhonnell y sylw y mae eitem yn ei gael i adlewyrchu cyrhaeddiad neu boblogrwydd allbwn ymchwil.

Rydym ni'n deall pwysigrwydd cyhoeddi ein gwaith ymchwil mewn cyfnodolion a adolygir gan gymheiriaid a gaiff eu cydnabod yn rhyngwladol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod ni'n cynnal lefelau ansawdd uchel ac i rannu ein canfyddiadau â'r gymuned ymchwil fyd-eang.




Cyfnodolion sy'n cynnwys erthyglau Addysg WISERD:



Cyrhaeddiad rhyngwladol Addysg WISERD

Mae proffil rhyngwladol Addysg WISERD yn cael ei adlewyrchu, a'u hategu, mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau dosbarthu o fewn y DU a thramor. Rydym ni wedi rhoi 34 o gyflwyniadau ar wahân o brosiectau WMCS ac Addysg WISERD mewn cynadleddau a adolygir gan gymheiriaid ar draws Ewrop yn y pum mlynedd diwethaf. Yn ogystal, rydym ni wedi cyflwyno ein canfyddiadau yn yr Unol Daleithiau a Chanada, gan gynnwys yng Nghyfarfod Blynnyddol y Gymdeithas Ymchwil Addysgol Americanaidd (AERA) fawreddog yn Washington, DC a San Antonio, Texas.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym ni wedi meithrin perthnasau cydweithio ymchwil newydd a chynhyrchiol gyda chydweithwyr tu allan i'r DU, yn arbennig o fewn Ewrop. Mae hyn wedi arwain at dri chais cydweithredol sylweddol ar gyfer prosiectau ymchwil rhyngwladol a chymharol newydd.




Cyfrannu i'r ddadl

Yn ogystal â rhannu ein canfyddiadau ymchwil â chynulleidfaoedd academiaidd, rydym ni hefyd wedi cyfrannu at drafodaethau cyhoeddus ar amrywiaeth o faterion addysgol. Yn ogystal â chyhoeddi blogiau, rydym ni'n defnyddio amrywiaeth o gyfryngau eraill. Mae'r rhain yn cynnwys ein gwefan WISERD, a chyfryngau cymdeithasol fel Twitter a Facebook.


Rydym ni hefyd yn ymgysylltu â chyfryngau mwy confensiynol. Mae Sally Power, er enghraifft, wedi ymddangos ddwywaith ar raglen *Thinking Allowed* Radio 4 i siarad am ein gwaith ymchwil.

Un uchafbwynt o 2017 oedd darlith gyhoeddus Chris Taylor i gydnabod ennill Medal Hugh Owen gyntaf Cymdeithas Ddysgedig Cymru am ragoriaeth mewn ymchwil. Roedd llawer o randdeiliaid allweddol yn bresennol, a llwyddodd y digwyddiad i ddenu cryn dipyn o sylw yn y wasg.

Gwylwyr tudalen ar wefan Addysg WISERD



Rhyngweithio gyda thrydariadau Addysg WISERD



Ymchwil Addysg WISERD yn yr wasg

Thinking Allowed « »
Prison gangs in US, Millionaire children
 3 years ago 28:19
 + Subscribe Playing Share
 MP3 • Episode home • Series home • Public Feed
 By BBC Radio 4. Discovered by Player FM and our community – copyright is owned by the publisher, not Player FM, and audio streamed directly from their servers.
 Prison gangs in the USA. Laurie Taylor talks to David Skarbek, Lecturer in the Department of Political Economy at King's College, London, about his research into the hidden world of convict culture, inmate hierarchy and jail politics. He finds sophisticated organisations, often with written constitutions, behind the popular image of chaotic violence. They're joined by Jane Wood, Senior Lecturer in Forensic Psychology at the University of Kent. Also, what would children do with an unexpected windfall of a million pounds? Sally Power, Professor of Education at Cardiff University, asked this question in order to explore children's values and priorities. Would they spend, save or give it away? Producer: Jayne Egerton.

WISERD
Hugh Owen Medal Lecture
 Implementing the new curriculum in Wales: lessons to learn?
 Professor Chris Taylor, Wales Institute of Social & Economic Research, Data & Methods (WISERD), Cardiff University
 Winner of the inaugural Learned Society of Wales Hugh Owen Medal
Tuesday 5 December 2017
 6:15-7:45pm
 Hedyr Ellis Building, Cardiff University, Maindy Road, Cardiff, CF10 3AT
 Open to: Public, staff and students
 To register, please visit our website: wiserd.ac.uk/events
 #HughOwenMedalLecture

Education Wales
The three key challenges facing curriculum reform
 There are three key challenges involved in implementing the new curriculum in Wales, says Chris Taylor, Professor of Education Policy at Cardiff University. Here, he outlines the issues ahead.
 Professor Chris Taylor, Wales Institute of Social & Economic Research, Data & Methods (WISERD), Cardiff University, is the winner of the inaugural Learned Society of Wales Hugh Owen Medal. He is also the author of the book 'The three key challenges facing curriculum reform'.

Darparu tystiolaeth ar gyfer polisi addysg

Mae Addysg WISERD wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu a gwerthuso polisiau addysg yng Nghymru. Yn ogystal â chyfarfodydd a chyfarfodydd bord gron rheolaidd, mae tîm Addysg WISERD wedi cynnal gwerthusiadau sylweddol o ddiwygiadau a buddsoddiadau addysgol allweddol.

Canmolodd y Gweinidog Addysg ar y pryd, Huw Lewis, y gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen yn benodol. Dywedodd: "Mae hwn yn adroddiad o'r math gorau, gan ei fod yn rhoi i lunwyr polisi a gweithwyr proffesiynol yr adnoddau ar gyfer cam nesaf y gwaith. Mae'n dweud y gwir, mae'n herio, nid yw'n ofni tynnu sylw at anghysondebau a diffygion o fewn yr hyn sydd gennym ni, ac mae'n rhoi llwyfan i ni ffocysu ein gwaith dros yr ychydig flynyddoedd nesaf."

Roedd yr adolygiad annibynnol diweddar o addysg uwch yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o dan gadeiryddiaeth yr Athro Ian Diamond, yn tynnu oddi ar ymchwil Addysg WISERD ac yn ei adroddiad terfynol, roedd yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol WISERD o ran darparu tystiolaeth ar gyfer llunwyr polisi yng Nghymru.

Mae cydnabyddiaeth bellach o arwyddocâd Addysg WISERD yn amlwg yn y ffaith bod ein gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen wedi ennill gwobr Cymdeithas Ymchwil ymdeithasol (SRA) Cymru 2017 am effaith.

Researchers scoop three Social Research Association awards

8 December 2017



Researchers from the School of Social Sciences took home three awards at the prestigious Social Research Association awards, held at the Senedd this week.

The awards are held to recognise and celebrate the outstanding research undertaken by social science researchers in Wales.

Professor Chris Taylor, co-director of the Wales Institute of Social & Economic Research, Data & Methods (WISERD), was awarded the Research Impact Award for research in Evaluating the Foundation Phase, the curriculum for 3-7 year olds.

When responding to the award, Professor Taylor said "I would like to acknowledge all the research champions outside of universities that really make the difference in giving our research impact. This includes government social researchers who work closely with their policy colleagues to ensure evidence informs policy decision, and school practitioners who engage with the latest evidence in order to develop effective teaching and learning."



Gweithio gydag ysgolion ac ymarferwyr

Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym ni wedi meithrin cysylltiadau gydag ymarferwyr yn gweithio mewn nifer fawr o ysgolion a cholegau addysg bellach. Drwy WMCS, rydym ni wedi casglu ystod o dystiolaeth ar yr heriau sy'n wynebu athrawon yng Nghymru.

Un agwedd werthfawr ar ein gwaith ymchwil yw'r diddordeb gan athrawon sy'n cyflwyno Bagloriaeth Cymru mewn defnyddio data a phecynnau dadansodol WMCS. Rydym ni wedi cyfrannu at nifer o ddigwyddiadau ar gyfer athrawon i'w cynorthwyo yng nghydran Prosiect Unigol Bagloriaeth Cymru ar Lefel Uwch.


Rydym ni hefyd yn gweithio i gefnogi'r rheiny sy'n newydd i'r proffesiwn addysgu. Er enghraifft, yn 2015, fe wnaethom ni noddi Gwobr Ymchwil Ymarferwyr MEP (mewn cydweithrediad â BERA).

Yr heriau'n wynebu athrawon yng Nghymru

Mae'r cymylau geiriau hyn, sy'n dod o ddata Arolwg Athrawon WCMS, yn dangos rhai o'r heriau sy'n wynebu athrawon heddiw. Mae'r siart isod yn dangos cipolwg ar y ffordd maent yn ystyried rhai o'r mesurau atebolrwydd a ddefnyddir i gadw golwg ar gyrrhaeddiant addysgiadol.

Y fater pwysicaf yn wynebu addysg

Y fater pwysicaf yn wynebu eich ysgol



Dr Richard Davies (Prifysgol Aberystwyth) yn cyflwyno gwobr 'Prosiect Ymchwil gan Athro Rhagorol' i Sarah Davies

Barnau prifathrawon ar werth cymryd rhan yn y WMCS

"Mae hi wedi bod yn bositif iawn, gan roi llawer o wybodaeth. Mae'n brofiad da iawn."

"O gymorth fawr iawn, nid yn unig o'r adroddiadau rydych wedi gwneud i ni, ond y gwaith rydych chi wedi gwneud ar gyfer Gyrfa Cymru hefyd... rydym wedi darllen yr adroddiadau, maent yn llawn gwybodaeth. Mae gen i lawer o ffydd yn y ffordd y cyflawnir y gwaith, ac rwy'n gobeithio gallwn barhau â'r perthynas."

"Prin sydd gennym ni'r amser i fyfrio fel ysgol ac fel unigolion, ac mae hyd yn oed cyfweiliadau fel hyn yn rhoi amser i fyfrio... and hefyd mae'r fath o adborth rydych chi wedi rhoi i ni (adroddiadau) wedi bod o ddefnydd mawr"

Adeiladu'r sylfeini ar gyfer dyfodol ymchwil addysgol yng Nghymru

Ers datganoli ym 1999, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu rhaglen diwygio addysg neilltuol, ac mae'n rhaid iddi fod yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gref. Fodd bynnag, tra bo'r angen am ymchwil ar addysg wedi cynyddu, mae pryderon parhaus am ddirywiad yn lefel ac ansawdd yr ymchwil addysgol a gynhelir yng Nghymru. Mae ymarferion olynol i asesu ymchwil yn tystio i hyn.

Yn sgil gweithio'n agos gydag academyddion addysg ar draws Cymru, rydym ni'n gweld bod cymuned ymchwil

addysg weithgar yng Nghymru, er gwaetha'r ffaith nad yw hi'n amlwg mewn ymarferion asesu ymchwil. Er y gallai hyn awgrymu nad yw'r sefyllfa yng Nghymru cynddrwg ag y mae rhai wedi'i ofni, nid yw'n golygu bod pryderon yn ddi-sail. Mae'n ymddangos bod y lefel bresennol o weithgarwch ymchwil yn ansicr iawn. Mae yna heriau difrifol i'w hwynebu o ran blaenoriaethau sefydliadol a lefelau arbenigedd a phrofiad. Mae gofyn mynd i'r afael â'r materion hyn os yw cydweithwyr sy'n gweithio ar draws prifysgolion yng Nghymru am gyfrannu at ddatblygu system addysg Cymru.

THE BERA BLOG RESEARCH MATTERS



FILTER CONTENT

Policy
Early Years & Primary Education
Higher Education
Research Methodology
Secondary & Post-Compulsory Education
Teaching and Teacher Education

✓ SIGS AND FORUMS
✓ PROJECTS AND TOPICS

Educational research in Welsh HEIs: a 'state of the nation' survey



Sally Power
WISERD, Cardiff University
Tuesday 21 March 2017

SHARE:   

WISERD

Educational research in higher education in Wales: Findings from a national survey

Sally Power and Chris Taylor




Prif ganfyddiadau o arolwg academyddion addysg yng Nghymru

Mae'r tabl hwn yn dangos bod ymgymryd ystyriol ag ymchwil addysg – yn nhermau datblygu arferion, ac ysgrifennu a chyhoeddi.

Lefelau gweithgaredd ymchwil hunan-gofnodedig	%	Cyfrif
Nid wyf yn ymgymryd ag ymchwil o gwbl	5%	5
Rwy'n darllen am ymchwil addysgiadol yn yr wasg gyffredin	51%	51
Rwy'n darllen am ymchwil addysgiadol mewn cyfnodolion academiaidd	79%	79
Rwy'n defnyddio tystiolaeth ymchwil yn fy ngweithgareddau addysgu	74%	74
Rwy'n ymgymryd ag ymchwil gyda fy nisgyblion ac ysgolionartner	37%	37
Rwy'n ymgymryd ag ymchwil sydd â pherthnasedd uniongyrchol i'm addysgu	58%	58
Rwy'n ymgymryd ag ymchwil sydd o ddiddordeb i mi, ond nad sy'n berthnasol i'm addysgu	29%	29
Rwy'n ymgymryd ag ymchwil sy'n cael ei ariannu'n allannol	23%	23
Rwy'n ysgrifennu a chyhoeddu at ddibenion addysgu	26%	26
Rwy'n ysgrifennu a chyhoeddu ar gyfer cynulleidfaoedd academiaidd	44%	44
Cyfanswm	100%	100

Er mwyn i weithgaredd ymchwil fod yn gynladwy, mae'n bwysig bod gan academyddion y gallu i ddarganfod cyllid ymchwilio. Ond mae'r siart isod yn dangos nad oes gan nifer o academyddion yr amser na'r profiad o wneud hynny.

Heriau i ysgrifennu cynigion grant ymchwil (% n=88)



Mae'r tabl isod yn dangos cyn lleied o fuddsoddiad sydd mewn ymchwil addysgiadol.

Cefnogaeth ac isadeiledd sefydliadol	Ddim ar gael	Ar gael ond heb ddefnyddio	Ar gael ac wedi defnyddio	Cyfrif
Grwpiau ymchwil a seminarau	8.3%	36.5%	55.2%	96
Cyllid i fynychu cynadleddau	8.9%	16.7%	74.4%	90
Amser absenoldeb astudio	69.9%	21.7%	8.4%	83
Cyllid i gefnogi ymchwil	40.0%	34.1%	25.9%	85
Cynghorwyr ymchwil	32.5%	26.5%	41.0%	83
Cyfleoedd i gydweithio'n allanol	30.4%	29.1%	40.5%	79

Cefnogi ysgrifennu academaidd

Un o ganfyddiadau allweddol ein harolwg o academyddion addysg yng Nghymru oedd bod angen amser a lle pwrpasol arnynt yn benodol ar gyfer ysgrifennu academaidd. Roedd hefyd angen canllawiau a chynghor arnynt ar y manau mwyaf priodol i rannu eu gwaith ymchwil.

Aethom ati i drefnu pedair wythnos o ysgrifennu a oedd yn cynnwys dros 30 o gydweithwyr. Y mwyaf llwyddiannus o'r rhain oedd wythnosau ysgrifennu preswyl a gynhaliwyd yn Neuadd Gregynog, Tregynon. Roedd y sesiynau yn cynnig strwythur, arweiniad ac ymrwymiad cyffredin a oedd yn hanfodol er mwyn i'r rheiny a oedd yn cymryd rhan allu cyflawni eu nodau ysgrifennu.

Mae'r wythnosau ysgrifennu hyn wedi ategu rhaglen helaeth o hyfforddiant unigol, ymweliadau ag adrannau addysg a lleoliadau preswyl yn WISERD.




CHILDREN & SOCIETY (2017)
DOI:10.1111/chso.12252

Charting the Emergence of National Identity in Children in Wales

Alison Murphy 
School of Education, Early Years and Social Work, Faculty of Life Sciences and Education,
University of South Wales, Pontypridd, UK

The multimodal study, set in Wales, demonstrates that children aged nine to ten can clearly define and nationalise their own national identity. It contributes to the age related discussions around how children categorise themselves in terms of national identity and the rationale for their choices. The children in the study used single and multiple definitions of national identity and illustrates the increasing plural nature of 21st century Wales. Family, birthplace and residency were identified as factors in shaping their national identity, more so than language, despite the current bilingual policy drive in Wales.
© 2017 John Wiley & Sons Ltd and National Children's Bureau

Keywords: children, development, national identity, Wales.

Introduction

National identity has been an important theme in the discourse of the United Kingdom in recent years for many reasons, including the programme of devolution implemented from 1997 onwards. The resultant reforms have generated a variation in autonomy for Wales, Scotland and Northern Ireland. Guibernau (2010) attributes this diverse landscape in the UK to the different demands of the particular national identities in Britain. According to Owen (2013) this fragmentation of the UK has led to a decline in identification with Britain. Individuals have become more likely to identify with one of the four regions within the UK.

Coupled with the backdrop of devolution, the ethnic composition of the UK has also become more diverse, as evidenced in the Census of 2011 (Office for National Statistics, 2011). This has fuelled the national identity debate and deliberations around migration and citizenship. Owen (2013:22) found that people from ethnic minorities 'are more likely than white people to identify with Britain' rather than one of the four nations within the UK. This was previously highlighted by Alibhai-Brown (2000), who noted that in devolved regions the idea of Welsh or Scottish national identity was challenging for individuals from ethnic minority groups.

This study further adds to the growing dialogue around the transient landscape of national identity in the devolved and diverse UK context and centres on how children in Wales view national identity. Affiliation with a nation has been established as beginning in childhood; however, there is little research which examines the perspectives of younger children. Similarly many of the explorations of national identity with children are age bound and grounded in psychology. According to Sharma (2014:10) they have focussed on the 'what' but not the 'how' and have faced criticism from sociologists for the 'universalising of childhood'. Investigating childhoods is complex due to the variety of experiences that children have, as well as the outlooks and norms they encounter. The 'one size fits all' nature of some of these age-related perspectives does not account for the interplay of a range of influences on children's lives and how they affect the construction of national identity viewpoints.

© 2017 John Wiley & Sons Ltd and National Children's Bureau



EARLY CHILD DEVELOPMENT AND CARE, 2017
https://doi.org/10.1080/03004430.2017.1417273



Supporting the development of young children's metacognition through the use of video-stimulated reflective dialogue

Helen Lewis 

Faculty of Education and Communities, University of Wales Trinity Saint David, Wales, UK

ABSTRACT
This paper reports on a study exploring metacognition in young children. Developing metacognitive skills helps children become responsible and 'thoughtful about their learning' (Chatziantelli, A., Grammatikopoulos, V., & Gregoriadis, A. (2014). Development and evaluation of metacognition in early childhood education. *Early Child Development and Care*, 184(8), 1223) and can improve educational outcomes (Hattie, J. (2012). *Visible learning for teachers: Maximising impact on learning*. Abingdon: Routledge). This paper explores how conducting video-stimulated reflective dialogues with young children about their thinking supported their metacognitive and cognitive development. Performance on a number of standardized tests was compared to that of a control group. Results indicated that the intervention group made more progress than the control group, became better at discussing their thinking and demonstrated an increase in metacognitive behaviours during classroom activities. The results suggest that VSRD with young children is valuable – as a participatory research tool, but also as a pedagogical strategy to support the development of metacognition and reflection.

ARTICLE HISTORY
Received 13 October 2017
Accepted 11 December 2017

KEYWORDS
Metacognition; reflection; dialogue; thinking; video-stimulated reflective dialogue; early childhood

1. Introduction

This study considered the nature and extent of metacognition in young children, whether it could be developed through a specific intervention and what the impact of this would be on the children's performance in standardized tests. This was part of a larger project, which also explored the teaching of thinking and how VSRD could support the reflective processes and classroom pedagogies of early years teachers.

1.1. Metacognition

Metacognition has been broadly defined as 'knowledge and cognition about cognitive phenomena' (Flavell, 1979, p. 906). However, within the research literature, a number of definitions of metacognition exist, and Brown (1987 in Georgiades, 2004, p. 367) warns that 'metacognition is not only a monster of obscure parentage, but a many-headed monster at that'. For the purposes of this study, metacognition refers to:

- the awareness individuals have of their own knowledge, their strengths and areas to develop, and their beliefs about themselves as learners;
- their ability to regulate their own actions in the application of that knowledge (Tanner, Jones, & Lewis, 2011).

CONTACT Helen Lewis  h.lewis@uwtsd.ac.uk  UWTSO, Townhill Road, Swansea SA2 0UT, UK
© 2017 Informa UK Limited, trading as Taylor & Francis Group

"Roedd strwythur da i'r digwyddiad gan fu canolbwynt i bob dydd. Gallu dysgu wrth wybodaeth a phrofiadau eraill o gyhoeddi. Cymorth unigol ar: yn ystod gwaith paratoi; stopio'n rheolaidd i egluro dadleuon; dechrau strwythuro; lle i ddarganfod tystiolaeth pellach i gefnogi trafodaethau."

"Bod gyda grŵp o bobl, yn yr un sefyllfa – i ffwrdd o'r gwaith a "bywyd go iawn". Cefnogol iawn, diolch."

"Wythnos rhagorol, gobeithio y cawn ni'r cyfle i gwrdd mewn blwyddyn i weld ein taith. Tîm gwych o WISERD. Diolch."

"Bu'r gweithdy ysgrifennu'n help i mi ganfod cyfnodolyn ar gyfer fy nghyhoeddiad nesaf"

Gweithdai ysgrifennu yng Ngregynog



Bodloni ein hamcanion

Sefydlu set ddata hydredol o ansawdd

01

5 carfan o bobl ifanc rhwng 6 a 18 oed

02

5 cyrch casglu data blynyddol

03

2 arolwg athrawon

04

1 arolwg rhieni

05

2 gyrch o gyfweiliadau â phenaethiaid a llywodraethwyr

06

Mae dros 2,200 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn yr WMCS

07

Cyfanswm o dros 6,000 o ymatebion unigol i'r arolwg

08

Dros 490 o ymatebion gan athrawon

09

29 o ysgolion wedi cymryd rhan (gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd)

10

Dros 240 o ymatebion gan rieni

Ffurio gweithgarwch ymchwil ar draws sefydliadau

Hyfforddi

6 ymweliad sefydliadol yn cynnwys 44 o academyddion addysg

Cymrodoriaethau lleoliad

6 lleoliad yn WISERD

Gweithdai ysgrifennu

4 wythnos ysgrifennu yn cynnwys 34 o academyddion addysg

Ymgysylltu sefydliadol Arolwg o anghenion ymchwil

22 o ymweliadau ag adrannau addysg prifysgolion

107 o ymatebion gan a cademyddion addysg

Cyfeirlyfr arbenigedd

66 o academyddion addysg wedi'u rhestru gyda'u harbenigedd a'u manylion cyswllt

Cyhoeddiadau

14

Erthyglau cyfnodol
yn a llyfrau'n seiliedig
ar y WMCS

16


Erthyglau eraill a
ysgrifennwyd gan
ymchwilwyr Addysg
WISERD

25

Adroddiad
swyddogol

28

O flogiau



Sicrhau cyllid sydd o leiaf £100,000 y flwyddyn

Prifysgol	£274,076
Trydydd sector	£111,824
Llywodraeth	£1,326,512
Cyngor Ymchwil	£1,690,774
Rhyngwladol	£603,000
Cyfanswm	£4,006,186

Cydnabyddiaeth ryngwladol o ragoriaeth ymchwil

34


Cyflwyniadau cynhadledd
rhyngwladol a adolygir
gan gymheiriaid

4 blynedd

yn cydlyn Rhwydwaith
y Comisiwn Ewropeaidd
o Arbenigwyr yn yr
Agweddau Cymdeithasol
ar Addysg a Hyfforddiant
(NESET)

Cydweithio sefydliadol

- Prifysgol Mons
- École Normale Supérieure, Lyon
- Athrofa Polisi Addysg a Chymdeithasol, Prifysgol Efrog Newydd



Atodiad 1: Grantiau Ymchwil

Dyfarniad	Ariannwr	Swm
Gwerthuso Llysgenhadon Gwych	Comisiynydd Plant Cymru	£8,286
Adolygiad o'r Ymchwil ar Gyflogadwyedd a Sgiliau Graddedigion mewn perthynas ag Economi Cymru	CCAUC	£9,362
Dyfodol Llwyddiannus i Bawb	CCAUC	£125,000
Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Ysgolion yr 21ain Ganrif – Band B Cyngor Caerdydd	Cyngor Caerdydd	£1,960
Y berthynas rhwng Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru ac Addysg Uwch	Llywodraeth Cymru	£24,828
Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion	Llywodraeth Cymru	£40,826
Gwerthusiad o Gynlluniau Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen	Llywodraeth Cymru	£119,000
Dadansoddiad o'r ymatebion i'r 'cais am dystiolaeth' a gynhaliwyd fel rhan o adolygiad annibynnol yr Athro Donaldson o'r cwricwlwm cenedlaethol a'r trefniadau asesu	Llywodraeth Cymru	£14,635
Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion Estyniad:	Llywodraeth Cymru	£23,742
Dadansoddiad o Gyrchfannau a Chyfraddau Cadw Disgyblion Blwyddyn 12 mewn Ysgolion Chweched Dosbarth	Llywodraeth Cymru	£24,765
Gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen:	Llywodraeth Cymru	£930,000
Gwerthuso Rhwydwaith Seren	Llywodraeth Cymru	£4,108
Rhwydwaith o Arbenigwyr ar Agweddau Cymdeithasol ar Addysg a Hyfforddiant (NESET)	Y Comisiwn Ewropeaidd	£600,000
Lleoliad ar gyfer ymchwil cymharol yng Nghymru a Ffrainc	Triangle	£3,000
Canolfan Ymchwil a Dadansoddi Data Gweinyddol (CADRE) (cefnogi prosiectau sy'n ymwneud ag addysg)	ESRC	£34,000
Cymdeithas Sifil WISERD (tri phecyn gwaith)	ESRC	£850,000
ESRC IAA: Cynhadledd Cyfnod Sylfaen	ESRC	£2,000
ESRC IAA: Arwyr a Dihirod: Datblygu deunyddiau cwricwlwm ar gyfer Bagloriaeth Cymru a thu hwnt	ESRC	£2,700

Dyfarniad	Ariannwr	Swm
ESRC IAA: Pobl ifanc a gwleidyddiaeth: cyd-gynhyrchu argymhellion ymchwil ar gyfer ymarferwyr	ESRC	£2,538
Pobl Ifanc a Refferendwm yr UE: Brexit flwyddyn yn ddiweddarach	ESRC	£43,786
Effaith ac effeithiolrwydd ehangu mynediad at addysg uwch yng Nghymru	ESRC a CCAUC	£288,249
PhD: Gwerthusiad hydredol o'r Cyfnod Sylfaen: deng mlynedd o gynllunio a gweithredu cwricwlwm	Ysgoloriaeth DTP Cydwethredol ESRC / Llywodraeth Cymru	£57,501
Partneriaeth a rhwydwaith ymchwil gweithredu iechyd ysgol (SHARPEN)	MRC	£400,000
Cymryd Rhan yn yr Arolwg Byd Plant Rhyngwladol	WISERD	£10,000
Gwerthuso Pori Drwy Stori	Book Trust	£30,342
Gwerthusiad o Adnoddau Rhifedd Pori Drwy Stori	Book Trust	£8,000
Argyfwng Addysg Gymraeg? Adolygiad o'r dystiolaeth gyfredol	Cymdeithas Anrhydeddus y Cymmrodorion	£7,500
Gwahaniaethau mewn cyfraddau gwahardd yn barhaol o ysgolion ar draws y DU	Cronfa John Fell (Prifysgol Rhydychen)	£39,000
Cyfranogiad Cymdeithasol yng Nghymru yn 50 oed: cymharu ymgysylltiad graddedigion a'r rhai heb radd o 'system addysg uwch elit' mewn cymdeithas sifil	SRHE	£5,000
Olrhain cynnydd deiliaid lleoedd a gynorthwyir ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach	Ymddiriedolaeth Sutton	£21,982
Poblyddiaeth Wleidyddol: Achosion a Chanlyniadau	AHSS a SPARK fel rhan o 'Caerdydd yn Siarad'	£3,300
Casglu Data ar gyfer Astudiaeth Aml-Garfan Addysg WISERD	Cronfa Seilwaith Ymchwil Prifysgol Caerdydd	£215,256
Prynu bandiau llewys Empatica E4 a ffonau clyfar Android	Cronfa Seilwaith Ymchwil Prifysgol Caerdydd	£52,420
Astudiaeth Addysg WISERD, Arweinyddiaeth Addysgol, Theori'r Cwricwlwm, Dylunio'r Cwricwlwm, Astudiaethau Diwylliannol ac Addysgeg Feirniadol	Prosiect Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Caerdydd	£1,500
Lleoliad gwaith CUROP: A yw pobl iau a phobl hŷn yn meddwl ac yn teimlo'n wahanol am y materion mawr sy'n wynebu ein cymdeithas?	Cynllun Lleoliadau Gwaith CUROP	£1,600
Cyfanswm		£4,006,186

Atodiad 2: Cyhoeddiadau

Erthyglau mewn cyfnodolion a llyfrau sy'n deillio o'r WMCS:

Smith, K. a Horton, K. (2017) Educational Research and teaching in Wales: How do teachers in Wales perceive research as a means to improve their practice? Cylchgrawn Addysg Cymru, Cyf. 19.1. tudalennau 125-141.

Pearce, S., Power, S., a Taylor, C. (2017) Private tutoring in Wales: patterns of private investment and public provision, Research Papers in Education.

Power, S., Taylor, C. a Horton, K. (2017) Sleepless in school? The social dimensions of young people's bedtime rest and routines. Cyfnodolyn Astudiaethau Ieuencid.

Pearce, S. (2017 yn y wasg) 'Young people, place and devolved politics: perceived scale(s) of political concerns among under 18s living in Wales' Cyfnodolyn Daearyddiaeth Gymdeithasol a Diwylliannol.

Smith, K. (2015) Learning Welshness: does the Curriculum Cymreig positively affect pupils' orientations to Wales and Welshness?. Education, Citizenship and Social Justice 10(3), tudalennau 199-216.

Smith, K. (2017) 'Fy ardal/my neighbourhood: how might pupils' orientations to their neighbourhood contribute to a pedagogy of place?'. Environmental Education Research 23(5), tudalennau 597-614.

Power, S. a Smith, K. (2016) 'Heroes' and 'villains' in the lives of children and young people. Discourse: Studies in the Cultural Politics of Education.

Power, S. a Smith, K. (2016) 'Giving, saving, spending: what would children do with £1 million?' Children and Society.

Smith, K. (2016) Curriculum, culture and citizenship education in Wales: investigations into the curriculum Cymreig. Palgrave Studies in Global Citizenship Education and Democracy. Llundain: Palgrave Macmillan.

Power, S. (2016) The politics of education and the misrecognition of Wales. Oxford Review of Education 42(3), tudalennau 285-298.

Grigg, R. (2016) 'Leave me alone and let me teach.' Teachers' views of Welsh Government education policies and education in Wales' Cylchgrawn Addysg Cymru, 18 (1) 64-86.

Power, S. a Taylor, C. (2017) The mainstreaming of charities in schools Oxford Review of Education (accepted).

Evans, D. (2017) 'Welsh identity in British Wales' Nations and Nationalism (yn destun adolygiad)

Evans, D. (2017) 'Welsh Devolution as Passive Revolution' Capital and Class (yn destun adolygiad)

Cyhoeddiadau Addysg WISERD eraill a gynhaliwyd gan yr ymchwilwyr

A Directory of Research Expertise in Wales, ar gael ar wefan WISERD.

Evans, D. Wales' Passive Revolution: Critical Reflections on Welsh Devolution. Contract Gwasg Prifysgol Cymru wedi'i ddyfarnu, dyddiad cyhoeddi disgwylidig 2017.

Atherton, G., Dumangane, C., a Whitty, G. (2016). Charting Equity in Higher Education: Drawing the Global Access Map. Llundain: Pearson, Plc.

Hampton, J. M. (2017) Content, constraint & misconceptions: Teachers' experiences of the sociology A level. The Sociology Teacher, 6 (3), tt.4-9.

Hampton, J. M., Fox, T., Taylor, C., & Muddiman, E. (2017). The role of intergenerational transmission in the Brexit vote, cyflwynwyd yn Symposiwm Brexit 'Understanding Society', Colchester, Mai (f.1) a Mehefin (f.2) 2017.

Evans, D. (2017) 'allan o ddyfnder yn y fyddin wrth gefn: gwersi methodolegol ethnograffeg perfformiadol' cyfnodolyn ethnograffeg cyfoes.

Smith, K. ac 'Otunuku, M. 2015. Heliaki: transforming literacy in Tonga through metaphor. The SoJo Journal: Educational Foundations and Social Justice Education 1(1), tt. 99-112

Smith, K. 2014. Critical discourse analysis as curriculum development in Pacific island nations: a comparative model for critical investigations of culture and curriculum. Yn: 'Otunuku, M., Johansson-Fua, S. and Nabobo-Baba, U. gol. Of Waves, Winds and Wonderful Things: a Decade of Rethinking Pacific Education. Suva, Fiji: Gwasg Prifysgol South Pacific, tt 185-197.

Smith, K. 2014. Critical hits and critical spaces. Yn: Paugh, P., Kress, T. a Lake, R. gol. Teaching towards Democracy with Postmodern and Popular Culture Texts. Imagination and Praxis Sense Publishers, tt. 239-256 ,[10.1007/978-94-6209-875-6_15]

Smith, K. 2013. Covert critique: Critical pedagogy 'under the radar' in a suburban middle school. International Journal of Critical Pedagogy 4(2), tt. 127-146.

Smith, K. 2013. The Tau'olunga: A pacific metaphor for a caring, critical pedagogy. Yn: Kress, T. and Lake, R. gol. We Saved the Best for You: Letters of Hope, Imagination and Wisdom for 21st Century Educators. Imagination and Praxis: Criticality and Creativity in Education and Educational Research, Cyf. 1. Synnwyr cyhoeddwy, Boston, tudalennau 61-64.

Adroddiadau Addysg WISERD

Taylor, C., Evans, D. a Huxley, K. (2017) Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Adroddiad Terfynol - Rhagfyr 2017, Rhif Ymchwil Gymdeithasol 77/2017. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Evans, D., Taylor, C. a Rhys, M. (2016) Gwerthusiad o'r Cynllun Peilot Hyblygrwydd y Cyfnod Sylfaen: Adroddiad Terfynol 2016, Rhif Ymchwil Gymdeithasol 80/2016, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Power, S. a Taylor, C. (2016) Ymchwil Addysgol mewn Addysg Uwch yng Nghymru: Canfyddiadau Arolwg Cenedlaethol. WISERD.

Pye, J., Mollitor, C., Taylor, C. a Huxley, K. (2015) Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Adroddiad Interim (Rhagfyr 2015), Rhif Ymchwil Gymdeithasol 60/2015, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Power, S., Taylor, C. a Lewis, J. (2015) Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru (Adolygiad Donaldson) - Dadansoddiad o ymatebion i'r holiadur Adroddiad Terfynol, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Rees, G., Taylor, C. ac Evans, C. (2015) Addysg Uwch Ran Amser yng Nghymru: Adroddiad Terfynol - Tystiolaeth i'r Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru. Caerdydd: WISERD.

WISERD (2015) Mynediad i Addysg Uwch yng Nghymru, Adroddiad i CCAUC, Caerdydd: WISERD.

Mae ugain o adroddiadau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â gwerthuso'r Cyfnod Sylfaen ar gael drwy <http://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-foundation-phase/?skip=1&lang=cy>

Blogiau Addysg WISERD

Curriculum, Culture and Citizenship in Wales, 22/1/2014, 105 o ymweliadau

Hopes and Dreams, 30/1/2014, 24 o ymweliadau

Bilingual education: Why it makes sense, 5/6/2014, 92 o ymweliadau

"What do you want to be when you grow up?" 4/8/2014, 386 o ymweliadau

Refugees, Rest and Routines: Addysg WISERD yn ECER a BERA, 3/11/2014, 46 o ymweliadau

What I learnt at WISERD: A Farewell Blog from Dr Mirain Rhys, 17/2/2015, 226 o ymweliadau

Is Education Wasted on the Young?, 19/2/2015, 931 o ymweliadau

WISERD New Starters – Rhan 1, 24/2/2015, 192 o ymweliadau

The Foundation Phase Evaluation – an update., 3/3/2015, 207 o ymweliadau

Giving, saving, spending: What would Welsh children do with £1 million?, 24/3/2015, 88 o ymweliadau

The Future of Welsh Education – An Inspectorate Perspective, 15/7/2015, 197 o ymweliadau

The "Ends" or the "Means"? What Lessons can Education Research teach Pedagogical Practice?, 28/7/2015, 109 o ymweliadau

Framing the Geographies of Higher Education Participation: Schools, Place and National Identity, 5/8/2015, 150 o ymweliadau

Democracy & Dragons: How do we Teach Citizenship Education in Continually Devolving Wales?, 1/9/2015, 642 o ymweliadau

Flexible Pre-School Education Pilots – Separating the Impactful from the Impractical, 13/10/2015, 132 o ymweliadau

Schooling and the Rights of Young People in Wales, 6/5/2016, 140 o ymweliadau

Foundation Phase Practitioner Conference, 23/5/2016, 179 o ymweliadau

Curriculum, Culture and Citizenship Education in Wales: Investigations into the Curriculum Cymreig, 8/6/2016, 165 o ymweliadau

Girls may perform better at school than boys – but their experience is much less happy, 30/08/2016, 116 o ymweliadau

Reflecting on the Diamond Review, 12/10/2016, 131 o ymweliadau

Just how much of a problem is cyberbullying in Wales?, 13/1/2017, 220 o ymweliadau

Young people and Brexit: a generational divide, 24/2/2017, 307 o ymweliadau

School allocations – an illusion of choice?, 2/3/2017, 97 o ymweliadau

Climate change and poverty are as much of a threat as terrorism for many young people, 31/3/2017, 13 o ymweliadau

Higher education and social justice in China, 28/4/2017, 68 o ymweliadau

WISERD GCSE Series – Part 1: Should all GCSE students be assessed in the same way?, 22/08/2017, 65 o ymweliadau

WISERD GCSE Series – Part 2: Should internal assessment be used for GCSEs?, 24/08/2017, 32 o ymweliadau

WISERD GCSE Series – Part 3: Is tiering fair for all students?, 25/08/2017, 28 o ymweliadau

Atodiad 3: Datganiad gwariant terfynol

Costau staff	
Ymchwilwyr	£501,639.40
Amnewidiadau dysgu	£207,658.45
Cefnogaeth gweinyddol	£68,484.73
Costau staff	£777,782.58

Costau nad sy'n staff	
Wythnosau ysgrifennu	£11,649.00
Teithio - prosiect	£2,941.20
Teithio - gwaith maes	£23,849.13
Mynychu cynadleddau	£16,144.47
Recriwtio	£587.45
Amryw - prosiect	£19,201.64
Staff dros dro	£843.94
Ymgynghoriaeth	£3,268.00
Amryw - cyfieithu	£10,427.33
Nwyddau traul	£282.23
Offer	£33,000.00
Adroddiad terfynol	£2,669.56
Costau nad sy'n staff	£124,863.95

Cyfanswm gwariant	£902,646.53
Costau gwerthuso	£20,000.00 <i>Talwyd gan Hefcw</i>
Cyfanswm y gyllideb	£930,264.00
Amrywiant	£7,617.47



🏠 Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru
Prifysgol Caerdydd,
38 Plas y Parc,
Caerdydd,
CF10 3BB

☎ Ffôn: 029 2087 9338

🌐 www.wiserd.ac.uk

🐦 @WISERDNews

📘 facebook.com/wiserdnews

Mae WISERD yn fenter ar y cyd rhwng prifysgolion
Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, De Cymru ac Abertawe.

